


TRYSORWN Y DDAEAR : NEWYDDION O BELL AC AGOS

# Y Papur Gwyrdd

Rhif 19 Awst / Medi 2010 www.ypapurgwyrdd.com PRIS: £1

## Arloesi wrth lunio byd di-garbon yn hen chwarel Llwyngwern

*AGOR SEFYDLIAD CYMRU ER ADDYSG GYNALIADWY*

## Cynog Dafis: Hen bryd i'r Cymry gofleidio'r mudiad gwyrdd

**Gwasgu $CO_2$ y glo dan ddaear Cymru — o ddifrif?**

ISSN 1755-3504
08
9 771755 350009

*LLOYD JONES: WYNEBU TRYWERYN YR HINSAWDD*
*CHARLOTTE DAVIES: MYNNWN ACADEMI HEDDWCH*
*MEURIG PARRI: DEWIS YNNI GLÂN I'N CYMUNEDAU*
*RICK MILLS: SIOM GWYRDD 'PONTIO' BANGOR*

*Y Papur Gwyrdd — Cyhoeddiad annibynnol Cymraeg dros warchod y Ddaear*

# Y PAPUR GWYRDD



*Llais Cymraeg, annibynnol, i'r ymgyrch i fynnu parch i'r Ddaear*



**Golygydd**: Hywel Davies
**Cyfeiriad**: 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX
**Ffôn**: 01792 798162
**Ebost**: ypapurgwyrdd1@btinternet.com
**Gwefan**: www.ypapurgwyrdd.com



Cyhoeddir yn ddeufisol ers Awst 2007 gan Hywel a'r Dr Charlotte Davies (cwmni Y Papur Gwyrdd Cyf.)

Argreffir Y Papur Gwyrdd yn llwyr ar bapur wedi'i ailgylchu, gan ddefnyddio inc llysieuol ar 8 o'r 12 tudalen, gan Wasg Morgannwg, Uned 27, Parc Busnes Mynach-log Nedd, Castell-nedd SA10 7DR.


## YN DAIR OED!

GYDAG Eisteddfod Genedlaethol Blaenau'r Cymoedd dathlwn benblwydd **Y Papur Gwyrdd** yn Dair Oed. Diolchwn i bawb ledled Cymru sydd wedi parhau'n frwd eu cefnogaeth i'r cyhoeddiad Cymraeg unigryw hwn ers ei lansio yn Eisteddfod Sir y Fflint. Trwy erthyglau a straeon **YPG** mae iaith ein gwreiddiau cenedlaethol hefyd yn llais i ddyfodol sy'n dibynnu ar barchu'r Ddaear — ein cartref planedol rhyfeddol sydd ar fenthyg i ni gan ein plant.

# CYNNWYS


**3** NEWYDDION
Degau o lofeydd newydd a gwasgu'r $CO_2$ dan ddaear Cymru! - Uchelgais y diwydiant glo

**4** GOLYGYDDOL
**Hywel Davies —** Gweledigaeth obeithiol Sefydliad Addysg y Ddaear a **Chynllun Prydain Carbon Sero** yn hen chwarel Llwyngwern

**5** YMGYRCHU
**Cynog Dafis —** Angen i Gymry Cymraeg gydio yn awenau'r mudiad gwyrdd

**6** PENSAERNIAETH
Siom gwyrdd *Canolfan Pontio* newydd Bangor

**Colofn: Ennill a Cholli**
Newyddion am Ymgyrch y Ddaear o bell ac agos



**7** CYMDEITHAS
**Charlotte Davies —** Militariaeth a'r mudiad gwyrdd: Angen Academi Heddwch Cymreig



LLUN: TIM SOAR

**8** YNNI ADNEWYDDOL
**Meurig Parri —** Y dewis call: ynni glân sy'n cynnal cymunedau

**9** DYFODOL
**Lloyd Jones —** Codwn o'n setiau teledu i wynebu Tryweryn yr hinsawdd



**10** **Colofn: Daeariadur YPG**
Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i barchu'r Ddaear

**11** **Colofn: Aelwyd a'r Byd**
Ymdrechion cartrefol cyhoeddwyr **YPG**

LLUNIAU: AGOR SEFYDLIAD ADDYSG Y DDAEAR

***MATRESI ORGANIG ABACA, tudalen 12***



## Y Papur Gwyrdd - yn eich siop leol neu drwy'r post

Mae'r **Papur Gwyrdd** ar werth gan lyfrwerthwyr da led-led Cymru. Ond os nad yw ar gael yn eich ardal chi, croeso i chi danysgrifio i'w dderbyn trwy'r post. Llanwch y ffurflen isod a'i danfon gyda'ch taliad atom:

ENW: …………………………………………………………..

CYFEIRIAD: ……………………………………………………..

……………………………………. Côd Post……………...

Amgaeaf siec at '**Y Papur Gwyrdd'** am ………………..
(Unigolion: £6 am 6 rhifyn. Croesewir cyfraniadau i gynorthwyo gyda chostau postio. Sefydliadau: £8.50).

Danfonwch y ffurflen hon gyda'ch siec at:
Y Papur Gwyrdd, 217 Vicarage Road, Treforys,
Abertawe SA6 6DX

EDRYCHWN YMLAEN AT EICH CROESAWU FEL TANYSGRIFIWR I'R PAPUR GWYRDD


## CROESAWU ADEILAD SY'N PARCHU'R DDAEAR



Yn gorwedd yn hardd ynghanol hen Chwarel Llwyngwern - adeilad newydd carbon isel Sefydliad Cymru er Addysg Gynaliadwy yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth. Mwy o luniau ac **Aelwyd a'r Byd**, tud 11.

***LLUN UCHOD A LLUN CLAWR: TIM SOAR***

**Olew BP yng Ngwlff Mecsico: A ddaeth dydd 'dagrau'r Ddaear'?**

'Rhyw ddydd fe fydd y Ddaear yn wylo, fe fydd yn ymbil am ei bywyd, fe fydd yn wylo gyda dagrau o waed. Fe wnewch eich dewis, ai i'w chynorthwyo neu adael iddi farw, ac wrth iddi farw, marw byddwch chithau hefyd.'

***John Hollow Horn, Indiad Oglala Lakota, Unol Daleithiau America, 1932***

## *DAL A STORIO'R CARBON — Y GWIR TU ÔL I SLOGAN 'GLO GLÂN'*

# Gwasgu $CO_2$ dan ein traed: Ai dyma fydd pris parhau i losgi glo ?

**Adroddiad arbennig Y PAPUR GWYRDD**

**BWRIEDIR gwasgu nwy $CO_2$ i haenau creigiog dan ddaear Cymru fel rhan o ymdrechion i barhau i ddefnyddio tanwydd mwyaf niweidiol y Ddaear – glo — i gynhyrchu trydan.**

Bydd Abertawe'n un o'r ardaloedd a ddefnyddir gan yr ymchwil i geisio dod o hyd i dechnegau storio tanddaearol diogel, a bu sôn am ardal Wrecsam fel posibilrwydd arall.

Cyhoeddwyd yr ymchwil perthnasol fel rhan o Brosiect Seren ym Mhrifysgol Caerdydd. Pwysleisia'r trefnwyr y bydd rhaid i'r arbrofion gyda'r nwy gael trwyddedau diogelwch i sicrhau eu bod yn ddigon pell o gartrefi.

Ar wahân i'r ymchwil hwn, mae cwmni RWE npower yn bwriadu gosod offer arbrofi Dal a Storio $CO_2$ (CCS) ym Mhwerdy Aberddawan os cant ganiatâd Cyngor Bro Morgannwg — ond dydyn nhw ddim wedi datgelu ble byddan nhw'n storio'r nwy.

Mae Prosiect Seren yn cael ei ariannu o sawl ffynhonnell, gan gynnwys £4.6 miliwn o'r Undeb Ewropeaidd trwy Lywodraeth y Cynulliad Cenedlaethol, fel rhan o ymdrechion costus rhyngwladol ar ran y diwydiant glo i ddarganfod sut i storio'r carbon.

Mae glo brwnt yn cynhyrchu 41% o holl drydan y byd ar hyn o bryd gan achosi Cynhesu Byd-eang trwy allyriadau $CO_2$.

Wrth i'r ymchwil Dal a Storio dod yn hysbys, mae Tyrone Sullivan OBE, cadeirydd cwmni glo Goetre Tower Cyf, wedi dadlau o blaid agor 30 o lofeydd newydd ledled Prydain, dan reolaeth y wladwriaeth yn llwyr neu'n rhannol *('We should use our coal,'* **Evening Post**, 7 Mehefin).

Caeodd Glofa'r Tower, Hirwaun, yn 2008 wedi i'r glo yno ddod i ben ond mae Mr Sullivan yn dadlau y dylid cloddio i haenau eraill o lo yng Nghymru, trwy byllau a safleoedd glo brig, yn lle mewnforio cymaint o wledydd tramor.

Mynna nad oes gobaith i dechnegau adnewyddol, di-garbon, ateb yr alw cynyddol am ynni, a bod digon o lo ar gael i gyrraedd ato'n rhwydd yng Nghymru — ond mae'n cydnabod y bydd rhaid glanhau'r $CO_2$ o'r glo trwy ddatblygu technegau Dal a Storio'r carbon.

Serch hynny, does dim un enghraifft hyd yn hyn o bwerdy glo masnachol sy'n atal allyriadau $CO_2$ rhag mynd i'r atmosffer. A does dim hyder y bydd yr arbrofion yn dwyn ffrwyth yn ddigon cyflym i atal y niwed anferth a achosir wrth losgi glo.

Cafwyd ergyd i hyder Mr Sullivan wrth i un o'r pyllau glo newydd Cymreig y cyfeiria ato, sef Aberpergwm, Cwm Nedd, fynd yn eiddo llwyr i gwmni Western Coal o Ganada ym mis Mehefin wedi i gynnyrch yno ddisgyn oherwydd problemau daearegol ac ariannol.

Comisiynwyd ymchwil Prosiect Seren er rhybuddion sylweddol ynglŷn â Dal a Storio (CCS):

**Ariannu:** Mae datblygu technoleg CCS yn profi'n gostus dros ben — disgwylir y bydd rhaid i drethdalwyr ledled y byd dalu amdano ac mae cwmnïau ynni yn ochelgar iawn ynglŷn â'r costau gweithredol anferth a ddisgwylir

**Ynni Di-garbon**: Bydd gwariant ar CCS yn cystadlu ag ynni di-garbon, adnewyddol – ac mae technegau diogel Dŵr, Haul a Gwynt ar gael yn barod

**Effaith amgylcheddol:** Oherwydd effeithiau prosesau CCS bydd rhaid cloddio tua 40% mwy o lo i gadw'r un lefelau o gynhyrchu pŵer — gan ychwanegu at gost y trydan ac at yr allyriadau nwyon tŷ gwydr o'r cloddio

**Gwrthwynebiad**: Bydd rhaid parhau i fonitro safleoedd storio oherwydd ofnau ynglŷn â gollyngiadau $CO_2$ o'r graig — ataliwyd arbrofion storio tanddaearol yn yr Almaen gan brotestiadau cymunedol wrth i gwmni Vatenfall arbrofi yn Schwarze Pumpe, ac mae cyfreithwyr America wrthi'n astudio goblygiadau digolledi am unrhyw effaith ar eiddo

**Amseru:** Mae'n anhebyg y bydd systemau CCS yn weithredol i leihau allyriadau $CO_2$ y diwydiant glo mewn pryd i ateb rhybuddion gwyddonol ynglŷn â chynhesu byd-eang — ddim cyn 2030 ar raddfa eang, os o gwbl

**Y Ddaear**: Bydd CCS, fel Niwclear, yn golygu defnyddio'r Ddaear fel bin sbwriel ar gyfer gwastraff dynol cyfoes gan fygwth cenedlaethau'r dyfodol

***► Mae Canolfan y Dechnoleg Amgen ym Machynlleth newydd gyhoeddi adroddiad sy'n dangos sut y gallwn greu ynni i Fyd Glan gan ddod â'n dibyniaeth ar y diwydiant glo difrodol i ben*** ***(tud 4)***

## NIWED CLODDIO YNG NGALISIA

MAE cannoedd o bobl yn protestio yn erbyn cynllun mwyngloddio yng Ngalisia, Sbaen, fyddai'n difrodi'r amgylchedd trwy chwalu coedwigoedd, llygru afonydd, gollwng gwastraff a niweidio bioamrywiaeth mewn ardal o harddwch arbennig.

Bwriad cwmni Picobello Andalucita SL yw codi mwyn andalwsit yn Pico Vello ar gyfer ffyrnau yn y diwydiant cemegol.

Er gwrthwynebiad lleol, mae Llywodraeth Galisia wedi ffafrio'r cwmni sy'n gobeithio cael cymorth ariannol sylweddol gan yr Undeb Ewropeaidd.

## POTSIWYR YN HELA'R RHINOCEROS

**LLADDWYD 124 rhinoceros eleni yn Ne Affrica gan botswyr ar ran prynwyr am eu cyrn, a hynny mewn modd erchyll o greulon. Dywed Parciau De Affrica fod hofrenyddion yn dod o hyd i'r rhino yn ystod y dydd, ac fe'u lleddir gan y potswyr gyda'r hwyr. Defnyddir tawelyddion, ac yna caiff y cyrn eu llifio o gyrff yr anifeiliaid. Maent yn marw o golli gwaed. Defnyddir y cyrn ar gyfer meddyginiaethau traddodiadol a dolenni cyllyll addurniedig yn Nwyrain a Chanol Asia.**

**CROESO I WEFAN**

**Y PAPUR GWYRDD**

**www.ypapurgwyrdd.com**

**Y Porth Cymraeg i wefannau'r Ddaear — ein cartref planedol rhyfeddol**

GOLYGYDDOL

HYWEL DAVIES



# Cyffro'r ganolfan Gymreig sy'n dangos sut i lunio dyfodol gobeithiol, carbon sero

**ENW trwsgl yw 'Canolfan y Dechnoleg Amgen'. Ond diolchwn amdano. Oherwydd mae'r fenter hon, yn hen chwarel Llwyngwern ger Machynlleth, ymhlith y mwyaf ei pharch ledled y byd. Yno, dros gyfnod o 30 mlynedd, bu ei phobl ddiwyd yn datblygu cynlluniau ymarferol ar sail eu gweledigaeth obeithiol i'r Ddaear a dynoliaeth.**

Cam mawr newydd ymlaen yn hanes y Ganolfan Amgen oedd agoriad swyddogol **Sefydliad Cymru er Addysg Gynaliadwy** yno ym Mehefin. Mae'r adeilad yn drawiadol o hardd, yn fach ei effaith ar yr amgylchedd, ac yn hynod gynaliadwy. Mae ganddo gyfleusterau



gwych ar gyfer cyfarfodydd a chynadleddau, ystafelloedd ar gyfer hyd at 50 o bobl i letya, ac fe gynhelir yno gyrsiau'n ymwneud â'r Ddaear a sut i'w gwarchod. Ni all fod lle mwy addas i gyflwyno addysg mor hanfodol i'n hoes ni. *(Gweler tudalen 11 am sylw pellach i agoriad y Sefydliad.)*

Cyfnod cyffrous tu hwnt yw hi i'r Ganolfan. Gyda lansiad y Sefydliad, daw hefyd cyhoeddi ail adroddiad o'u cynllun arloesol **Prydain Ddi-Garbon 2030**. Trwy hwn, dengys proffwydi a gwyddonwyr a pheirianwyr y Ganolfan Amgen fod modd i ni droi cefn ar y mathau o ynni ffosil carbon sy'n peryglu'n dyfodol ar y blaned, gan addasu'n ffordd o fyw a defnyddio ynni glan ac adnewyddol yn ei le. A'r nod yw creu gwledydd carbon sero erbyn 2030.

Ysgrifennaf y geiriau hyn ar drothwy Eisteddfod Genedlaethol Glyn Ebwy. Ym meddylfryd yr eisteddfod, dyma gyhoeddiad sy'n haeddu Coron a Chadair, dyma awduron sy'n haeddu'u derbyn i'r Orsedd *ên bloc*, dyma sefydliad sy'n haeddu'u cyfarch — yn arbennig o briodol — gan Ddawnswyr y Blodau. A dylai'r dorf floeddio "Heddwch — a Llwyddiant!"

Mae sicrhau llwyddiant i syniadau **Prydain Ddi-Garbon 2030** yn allweddol. Mewn cyfnod o asesu pob peth gan lywodraethau ar sail mantolen ariannol — ac ideoleg y farchnad gorfforaethol, fyd-eang, bid siŵr — mae pwysau gwleidyddol yn ganolog i'r llwyddiant hwnnw. Da o beth, felly, bod y Cynllun eisoes wedi cael ei gyflwyno yng Nghynulliad Cenedlaethol Cymru yng Nghaerdydd ac yn Senedd y Deyrnas Gyfunol yn Llundain. Wedi siom Copenhagen, a thwf gwawd ergydiol y Gwadwyr, dyma gyfle i roi hwb o'r newydd i syniadau sy'n mynnu gosod lles y Ddaear, dynoliaeth, a'r holl ffurfiau bywyd eraill, ar frig blaenoriaethau polisi.

Mae'r adroddiad yn gyfrol sylweddol o 364 tudalen sy'n seiliedig ar gyfraniadau gan 13 prifysgol, 12 sefydliad ymchwil ac 8 o arweinyddion diwydiannol. Fel y bu Llwyngwern ei hun yn chwarel lechi, dyma chwarel o wybodaeth ynglŷn â'r ffordd ymlaen at berthynas mwy diogel rhwng dynoliaeth a systemau naturiol y Ddaear.


Mae'n enghraifft arall o allu'r Ganolfan Amgen unigryw hon i arloesi ym mhwnc cynaliadwyedd. Dyma'r strategaeth ynni gyflawn gyntaf i ddangos sut y gellir lleihau allyriadau carbon hyd at sero, o ran pob nwy tŷ gwydr ac ar draws pob sector, os caiff ei chymryd o ddifrif.

Medd Paul Allen, Cyfarwyddwr Canolfan y Dechnoleg Amgen, amdano: "Mae **Prydain Ddi-garbon 2030** yn dangos sut y gall y cymysgedd cywir o bŵer gwynt, dŵr, solar, biomas, ynghyd â *grid* deallus er mwyn rheoli'r galw am ynni, gadw'r goleuadau ynghynn gan gyflenwi'r ynni sydd ei angen ar y wlad, a chan ennill ymhob ffordd ar draws yr economi."

Nod y cynllun yw integreiddio syniadaeth ar draws amrywiaeth o sectorau ac adnabod posibiliadau ar gyfer 'Pweru i Lawr' trwy leihau'r galw am ynni, a 'Phweru i Fyny' gydag ynni adnewyddol hyd at 100% erbyn 2030.

Eglurir y gellir gwneud hynny heb unrhyw angen am ynni niwclear. Dyma ynni sy'n cael ei wthio fel un gwyrdd, di-garbon ac adnewyddol ond sy'n dibynnu ar wraniwm a gaiff ei rhwygo o'r Ddaear a sy'n gadael gwastraff ymbelydrol i fygwth cenedlaethau'r dyfodol.

Mae gan Paul Allen freuddwyd wefreiddiol ar gyfer Cymru'n benodol: "Mae gan Gymru adnoddau adnewyddol helaeth," meddai, "Trwy symud tuag at Gymru Ddi-garbon gallwn greu miloedd o swyddi newydd gan fwynhau gwell diogelwch ynni yn ogystal ag economi mewn gwlad sy'n



fwy cynaliadwy, deinamig a gwydn."

Mae **Prydain Ddi-garbon 2030** yn gyfraniad eithriadol o bwysig gan y Ganolfan Amgen at lunio polisïau call ar frys er mwyn ffrwyno'r cynhesu byd-eang a'r newid hinsawdd sy'n fygythiad mor real. Mae ymweld â'r Ganolfan yn ysbrydoliaeth. Dyma drysor i Gymru ac i'r Byd. Ewch yno.

**Gellir darllen copi o'r Cynllun ar wefan y Ganolfan Amgen, www.cat.org.uk, a'i lawr lwytho am ddim oddi yno. Gellir archebu copi papur am £39.95.**

# Gwyddonwyr yn rhybuddio ...

DOES dim dwywaith nad yw Gwadwyr Newid Hinsawdd a'u cefnogwyr corfforaethol pwerus wedi magu nerth a dylanwad dros y misoedd diwethaf. Ond cafwyd rhybudd o'r newydd i bobl resymol a chytbwys eu barn bod gwyddonwyr sylweddol yn dal i fynnu ein bod yn wynebu peryglon mawr oherwydd Cynhesu Byd-eang a Newid Hinsawdd.

Mewn llythyr yng nghylchgrawn **Science**, mae 250 aelod o Academi Gwyddorau'r Unol Daleithiau yn dal at y pwyntiau canlynol:

► Mae'r blaned yn cynhesu oherwydd cynnydd nwyon tŷ gwydr

► Gweithgarwch dynol yw prif achos y cynhesu hyn

► Mae prosesau naturiol yn effeithio ar hinsawdd y blaned ond mae'r newidiadau a achosir gan bobl bellach yn drech na nhw

► Bydd cynhesu byd-eang yn achosi newidiadau ar gyflymder nas gwelwyd o'r blaen, e.e., codiadau yn lefel y môr

► Bydd cyfuniad o'r newidiadau hyn yn bygwth trefi arfordirol, cyflenwadau dŵr a bwyd, ecosystemau'r môr a dŵr croyw, fforestydd a mwy.

**Eu rhybudd yw:** ***'Rydym yn gallu anwybyddu'r wyddoniaeth a chuddio'n pennau yn y tywod gan obeithio y byddwn yn lwcus, neu fe allwn weithredu er lles y cyhoedd yn fuan ac yn nerthol i leihau bygythiad newid hinsawdd byd-eang.'*** **Gair i gall?** ☐

*CYNOG DAFIS: 'MUDIAD PWYSICA'R BYD' YN CAEL EI DRIN FEL PETH AMHERTHNASOL GAN AML I BAPUR, CYLCHGRAWN, SEFYDLIAD A MUDIAD CYMREIG ...*

# Her i'r werin Gymraeg gydio yn awenau'r mudiad gwyrdd

**Ar y trên o Fachynlleth i Gaerdydd y gofynnodd eich golygyddion hyglod a gyfrannen ni ysgrif i'r *Papur Gwyrdd*. Newydd fod ein tri mewn digwyddiad hynod ac ysbrydiadol, sef agoriad Sefydliad Addysg Datblygu Cynaliadwy Cymru yng Nghanolfan y Dechnoleg Amgen (CyDA).**

Dyma i chi adeilad sy'n esiampl o gynaliadwyedd amgylcheddol ac adnawdd o safon fyd-eang fydd yn cynnig cyrsiau yn amrywio o radd Meistr yng ngwahanol agweddau'r trawsnewidiad gwyrdd i hyfforddiant i blymwyr ar sut i osod systemau ynni solar mewn cartrefi. Y cyfan ym mherfedd cefn gwlad y Gymru Gymraeg. Beth allai fod yn fwy cyffrous?

Heb law, yng ngolwg y tri ar y trên o Fachynlleth i Gaerdydd y diwrnod hwnnw, am un mater bach, sef mai sefydliad o Saeson (os goddefir y gair) i raddau helaeth iawn yw CyDA.



**CYNOG DAFIS — cyn AS ac AC**

Nid nad oes yno barch i'r Gymraeg, na hoffter o Gymru. Fe ddysgodd nifer o'r staff Gymraeg yn rhugl; fe sicrhawyd fod cyfran dda o areithiau'r agoriad yn Gymraeg; ac mae nifer o Gymry Cymraeg a di-Gymraeg, gan gynnwys awdur hyn o eiriau, yn aelodau o Fwrdd yr Ymddiriedolwyr (Cadeirydd, Iolo ap Gwynn).

Ond y ffaith amdani yw mai creadigaeth Saeson yw CyDA a bod egni creadigol y lle yn dibynnu ar chwistrelliad cyson o recriwtiaid o'r tu hwnt i'r ffin, yn ogystal wrth gwrs â gwahanol rannau'r byd.

A ddylid gweld hyn yn nhermau problem? Na ddylid yn bendant, yn enwedig gan fod yna ymdeimlad cynyddol yn CyDA o'r angen i estyn allan i'r gymuned leol, a'r gymuned Gymraeg yn benodol. Mae yna frwdfrydedd cynyddol hefyd dros y cysyniad o Gymru fel gwlad arwyddocaol yn y trawsnewidiad gwyrdd.

Ond mae'n codi cwestiwn arwyddocaol serch hynny, cwestiwn sy'n destun pryder i aml i weithgarydd gwyrdd, sef prinder y Cymry, a'r Cymry Cymraeg yn arbennig efallai, sy'n ymdaflu i fudiad pwysica'r byd yn yr unfed ganrif ar hugain.

Nid nad oes llawer wedi'i gyflawni. Dyna i chi weithlu sefydliadau megis Cyngor Cefn Gwlad a'r Parciau Cenedlaethol a staff cyflogedig adrannau Cymreig mudiadau pwyso megis y Gymdeithas Gwarchod Adar, Cyfeillion y Ddaear a'r Gronfa Fyd-eang dros Fywyd Gwyllt.

A beth am fentrwyr ym myd ynni adnewyddol megis Dafydd Huws ac Eryl Vaughan, arweinydd Ynni Gwynt Cymru sy â chynlluniau uchelgeisiol i greu swyddi a chyfoeth yng Nghymru?

Neu fe ellid cyfeirio at yr holl ffermwyr sydd wedi magu diddordeb a sgiliau amgylcheddol drwy ymwneud â chynlluniau Tir Cymen a Thir Gofal. Adeg sefydlu CyDA dros 30 mlynedd yn ôl doedd dim sôn am bethau felly.

A Llywodraeth Cymru wedi mabwysiadu Datblygu Cynaliadwy fel un o nodau amgen y genedl a'i osod yng nghanol ei hagenda bolisi, mae'r her i'r werin Gymreig a Chymraeg i gydio yn awenau'r mudiad gwyrdd yn ei holl agweddau yn un daer.

Go brin fod angen pregethu'r bregeth hon wrth ddarllenwyr *Y Papur Gwyrdd*, ond mae aml i bapur a chylchgrawn arall, aml i fudiad a sefydliad hefyd, y mae'r pwnc tyngedfennol hwn yn dal yn ymylol, yn amherthnasol hyd yn oed, iddyn-nhw.

Does dim esgus dros hynny. Y nôd ddylai fod i ddealltwriaeth o'r sialens amgylcheddol a, lawn cyn bwysiced, y cyfleodd sy'n tarddu ohoni, dreiddio i bob twll a chornel o'n cymdeithas-ni. Felly y gall cymunedau Cymru, a'r gymuned Gymraeg yn arbennig, adeiladu ar y seiliau a osodwyd, yn ein gwlad ni, yn aml iawn gan Saeson dŵad.

Ac wedi i fi gyflawni'n addewid i olygyddion *Y Papur Gwyrdd*, y dylai fod pob Cymro gwerth ei halen yn ei ddarllen, y peth nesaf rwyf i am wneud yw ffeindio mâs pryd mae cyfarfod nesaf mudiad Trefi Trawsnewid yn Aberystwyth, a'i fynychu e. ☐

***Bu Cynog Dafis yn AS Plaid Cymru a'r Blaid Werdd dros Geredigion rhwng 1992 a 2000. Bu'n AC o 1999 i 2003.***

Welcome to **Llandeilo, the first Transition Town in Wales**. We are part of a network of communities across the UK and Ireland responding locally to the challenges presented by Climate Change and Peak Oil. We are looking at how we can reduce our carbon footprint and increase our resilience to the shocks that Peak Oil will bring.

*Saesneg yw prif iaith y mudiad gwyrdd yng Nghymru.*
*Geilw Cynog Dafis am fwy o Gymry Cymraeg i ymuno â'r gweithgarwch, a'i arwain.*

**Trawsnewid Bangor Transition** is a group of local people inspired to respond to the twin challenges of Peak Oil and Climate Change. Our aim is to help build and integrate our local communities along more sustainable lines and values.

**Transition Bro Gwaun** is a community in a process of imagining and creating a future that addresses the twin challenges of diminishing oil and gas supplies and climate change, and creates the kind of community that we would all want to be part of.

ADEILADAU NEWYDD CYMRU I FOD YN 'CARBON SERO' ERBYN 2011— OND ...

# Siom gwyrdd 'Pontio' Bangor

Adroddiad gan
RICK MILLS
Cyfeillion y Ddaear
Môn a Gwynedd

**DOES dim dwywaith, yn dilyn cau Theatr Gwynedd, nad oes angen canolfan newydd i'r celfyddydau ar Fangor. Ond, a ydy'r cynlluniau ar gyfer *Canolfan Celfyddydau ac Arloesi Pontio* yn cyrraedd disgwyliadau amgylcheddol ?**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi datgan mai'r nod ar gyfer pob adeilad a godir yng Nghymru o 2011 ymlaen yw bod yn garbon sero, ac fe gafodd hyn ei gadarnhau gan gyngor diweddar TAN 22 ynglŷn â chynlluniau ar gyfer adeiladau cynaliadwy.

Gan na fydd y ganolfan yn agor tan 2012, mae'n ymddangos yn ddisgwyliad digon rhesymol y byddai ymhlith yr adeiladau cyntaf i gyrraedd y targed hwn. Ysywaeth, unwaith eto mae'n ymddangos nad yw'r realiti yn adlewyrchu'r rhethreg: does dim cynlluniau i'r adeilad hwn fod yn garbon sero.

Ateb Prifysgol Bangor i'r math hwn o feirniadaeth yw eu bod yn ceisio lleihau allyriadau carbon "mor bell ag sy'n ymarferol." Dywedant, hefyd, fod yr adeilad yn cyrraedd safon 'BREEAM (Method Asesiad Amgylcheddol y Sefydliad Ymchwil Adeiladau) Excellence' gan esbonio mai costau yw'r rheswm pam nad ydynt yn anelu at y lefel uchaf, sef 'BREEAM Outstanding.'

Ond, mae canolfan debyg i'r celfyddydau ym Mhrifysgol Caerhirfryn yn cael ei chynllunio i gyrraedd y lefel hon. Os mae Prifysgol Caerhirfryn yn gallu gwneud hynny, pam nad Bangor?

Mae Cyfeillion y Ddaear Môn a Gwynedd yn galw ar y Brifysgol a chyrff ariannu i edrych o'r newydd ar y prosiect gan sicrhau nodweddion gwyrdd eraill, gan gynnwys mwy o elfennau adnewyddol. Ar hyn o bryd, rhywbeth sy'n sefyll allan yn ei absenoldeb yw darpariaeth ffotofoltaidd, er bod hynny'n ymddangos yn beth amlwg ar gyfer canolfan arloesi!

Awgrymiadau eraill yw cynnwys muriau gwyrdd byw er mwyn meddalu pryd a gwedd fonolithig yr adeilad ac i ehangu ar fioamrywiaeth ardal drefol, a, hefyd, i gymryd camau i sicrhau y collir cyn lleied o goed ag sy'n bosibl trwy blannu coed brodorol mewn lleoedd eraill am bob coeden sydd rhaid ei thorri.

Mae Grŵp Amgylcheddol Cyfeillion y Ddaear yn cyflwyno deiseb i'r Brifysgol o blaid y mesurau hyn cyn bo hir. Gall unrhyw un hoffai arwyddo'r ddeiseb wneud hynny trwy ymweld ag http://www.petitiononline.com:80/pontiocy/petition.html.

## Cymru i elwa o ddileu'r IPC?

WRTH i Lywodraeth Glymblaid newydd San Steffan fynd ati i ddileu Comisiwn Cynllunio Strwythurol (yr IPC) byr hoedlog y Llywodraeth Lafur – mae Gweinidog Amgylcheddol Cymru, Jane Davidson, yn gobeithio adennill pwerau dros brosiectau ynni dros 50MW i Weinidogion y Cynulliad Cenedlaethol.

Cafodd Comisiwn yr IPC ei feirniadu'n llym am fod yn gorff annemocrataidd. Fe'i sefydlwyd gan Lafur oherwydd yr arafwch yn y broses o greu prosiectau ynni adnewyddol yn wyneb gwrthwynebiad lleol.

Meddai Ms Davidson fod y Mesur Seneddol sydd i ddelio â dyfodol yr IPC yn rhoi cyfle i Gymru geisio am y pwerau hawliau cynllunio oedd wedi'u trosglwyddo i'r Comisiwn.

"Roeddwn yn falch iawn," meddai, "y cafwyd cefnogaeth draws-bleidiol [yn y Cynulliad] ... i geisio ennill pwerau i Weinidogion Cymreig dros brosiectau strwythurol o arwyddocad cenedlaethol."

Bwriedir trafod â San Steffan.

# ENNILL A CHOLLI YM MRWYDR Y DDAEAR

Pigion amrywiol 2 fis

### DIM CLONIO, DIOLCH

PLEIDLEISIODD Aelodau Senedd Ewrop i wahardd cig a chynnyrch llaeth o anifeiliaid wedi eu clonio yn ogystal â 'bwydydd newydd'. Gosodwyd cyfyngiadau, hefyd, ar gynhyrchion nanodechnoleg. Bu Jill Evans ASE yn ymgyrchu dros waharddiadau tebyg ers 2008.

### 'ANRHEG' MONSANTO

MAE ffermwyr bychain Haiti yn protestio yn erbyn y bygythiad i hadau ac arferion ffarmio lleol a olygir gan 'anrheg' o 60,000 o fagiau (475 tunnell) o hadau *hybrid* a gynigir gan gwmni Americanaidd Monsanto. Mae'r ffermwyr yn ofni y bydd hadau Monsanto yn dinistrio'u hannibyniaeth fwyd. 'Dyma ymosodiad ar amaethu bychain, ar hadau Creol ac ar fioamrywiaeth,' medd un o'r protestwyr. Mae Monsanto'n gwthio cemegau a hadau GM ledled y byd. <http://www.rainforest-rescue.org>

### CAWL PLASTIG Y MÔR TAWEL

MAE llong hwylio **Plastiki,** sydd wedi'i gwneud o 12,500 o boteli plastig, wedi teithio trwy Gawl Sbwriel Mawr y Môr Tawel rhwng San Francisco ac Awstralia. Crêd gwyddonwyr fod yr ardal hon o'r môr wedi cronni efallai cymaint â 100miliwn tunnell o blastig gwastraff. Ofnir bod darnau mân plastig yn cael eu llyncu gan bysgod — ac yn bennu'n cael eu bwyta gan bobl.

### GWLAD YR IÂ - IE, OND ...

CYTUNODD Senedd Ewrop i agor trafodaethau aelodaeth gyda Gwlad yr Iâ. Ond mae Aelodau hefyd yn galw ar Wlad yr Iâ i ymatal rhag hela morfilod gan fod hynny'n groes i gyfreithiau'r UE.

### PROTEST PALMWYDD BRYSTE

MAE dicter ym Mryste wrth i Archwilydd Cynllunio ddatgan na fydd e'n ystyried effeithiau Pwerdy Olew Palmwydd 50KW ar yr amgylchedd wrth gynnal Ymchwiliad Cyhoeddus i gais i'w godi. Gwrthododd cyngor y ddinas y cais gwreiddiol oherwydd y niwed amgylcheddol a dynol a achosir gan y fforestydd palmwydd newydd yn ne-ddwyrain Asia. Gofynnir a ydy'r Llywodraeth o ddifrif am y blaned?

### YNNI'R AMAZON

MAE coedwigoedd yr Amazon ym Mheriw yn wynebu mwy o niwed gan gwmnïau olew a nwy sy'n elwa ar ofynnion ynni y system prynwriaeth barus Gorllewinol. Yn ôl astudiaeth newydd mudiad *Save America's Forests* a Phrifysgol Annibynnol Barcelona, bydd twf ardaloedd archwilio yn caniatáu dros 180 o dyllau newydd mewn ardaloedd pellennig o'r fforestydd gan ddifrodi cymunedau Indiaid brodorol a'r amgylchedd. Mae 48.6% o ardal Amazon Periw ar gael i'w archwilio , cynnydd o 7.1% ers 2003.

### CORUS YN TOCIO'R CARBON

AGORODD Prif Weinidog Cymru, Carwyn Jones, safle newydd £60miliwn yng ngwaith dur Corus, Port Talbot, fydd yn lleihau allyriadau carbon y gwaith o 240,000 tunnell y flwyddyn. Medd y cwmni y bydd y gwaith hefyd yn haneru ei ddefnydd o nwy allanol trwy ail-ddefnyddio nwy a gynhyrchir ar y safle ei hun.

### CYNLLUN TOTNES

CYHOEDDODD tref Totnes yn Nyfnaint gynllun cymunedol sy'n dangos sut y gall trigolion leihau eu dibyniaeth ar danwyddau ffosil a'u hôl troed carbon yn sylweddol dros yr 20 mlynedd nesaf. Dywedir mai cynllun **Llwybrau Gostwng Ynni** (EDAP) yw'r un cyntaf o'i fath yn y byd i baratoi ar gyfer effeithiau pellgyrhaeddol Brig Olew. Gellir dysgu mwy amdano trwy <http://totnesedap.org.uk>.

### PLANNU ER MWYN LLOSGI

MAE pryderon ar gynnydd mewn sawl gwlad am effaith fforestydd coed GM a blannir yn unig fel tanwydd pwerdai. ***Rettet den Regenwald.***

Cefnogwn yr ymgyrch i sefydlu Academi Heddwch – nid Academi Filitaraidd

# Twf militariaeth – newyddion drwg i Gymru ac i'r Ddaear



Erthygl gan CHARLOTTE DAVIES

**DECHREUODD Mererid Hopwood ei haraith ardderchog o blaid sefydlu Academi Heddwch yng Nghymru, yn ystod Cynhadledd Undeb yr Annibynwyr Cymraeg yng Nghaerfyrddin, trwy ddangos darlun Pieter Bruegel o 'Gwymp Icarws'.**

Mae'r llun yn portreadu trasiedi mawr, wrth i Icarws gwympo o'r awyr a diflannu dan donnau'r môr. Ond dim ond digwyddiad bach di-nod ydyw yn y llun, gyda neb o gwmpas yn talu fawr o sylw iddo. Cyfeiriodd Mererid at y tebygrwydd rhwng hyn a thwf militariaeth yn ein cymdeithas gyfoes ni wrth iddo weu ei hun i normalrwydd ein bywydau heb i neb ohonom sylwi bron.

Rydym yn sylwi ar ddigwyddiadau rhyfelgar amlwg fel yr ymosodiad ar Irac a'r ymladd yn Afghanistan. Ond beth am y swyddfeydd recriwtio i'r lluoedd arfog ym mhob tref, a'r hysbysebu sy'n gwneud i fywyd yn y fyddin ymddangos mor ddeniadol? Faint o sylw ydyn ni'n talu i rheiny er eu bod yn sugno cymaint o'n bechgyn a'n merched i ganol trist yr holl drefn filwrol?

Yn yr un modd, mae'r Academi Filitaraidd yr anelir at ei sefydlu ym Mro Morgannwg yn cael ei chyflwyno'n bennaf fel ffynhonnell swyddi newydd i'r ardal. Fawr o sôn y bydd yn hyfforddi pobl o bendraw'r byd mewn technegau lladd ac yn hwb pellach i filitareiddio Cymru.

## Y CHWALFA AMGYLCHEDDOL

Mae proses debyg ar waith o ran yr amgylchedd. Dydyn ni ddim yn gweld ein gweithredoedd bach fel rhan annatod o'r trasiedi mawr sy'n goresgyn y Ddaear. Taflwn ein poteli plastig i ffwrdd heb ystyried eu cyfraniad at y cawl enbyd o ddarnau plastig, 1000 o filltiroedd ar draws, sy'n cylchdroi yng nghanol y Môr Tawel.

Ond mae'r perthynas rhwng y Mudiad Gwyrdd a'r Mudiad Heddwch yn agosach na'r methiant i ddeall arwyddocâd pethau bychain. Yn ogystal â'r chwalfa amgylcheddol amlwg a achosir i ecosystemau'r Ddaear gan y rocedi a'r bomiau, mae cyfraniad twf militariaeth byd-eang i'r argyfwng amgylcheddol yn enfawr — mae militariaeth yn llyncu ynni, adnoddau, tir, a hyd yn oed yr awyr uwch ein pennau.

Defnyddir canran anhygoel o uchel o ddefnyddiau crai'r Ddaear gan luoedd arfog ledled y byd. Mae hi'n anodd iawn i gael gafael ar ffigyrau diweddar ond dangosodd astudiaeth hyd yn oed o ddechrau'r 1990au, mai'r Pentagon oedd y defnyddiwr mwyaf o olew yn yr Unol Daleithiau – ac, yn ôl pob tebyg, y mwyaf yn y byd. Mae tua chwarter o'r tanwydd awyrennau *jet* sy'n cael ei losgi bob blwyddyn yn mynd i luoedd awyr y byd. Ac mae'r defnydd militaraidd a wneir o alwminiwm, copr, nicel a phlatinwm yn fwy na defnydd y cyfan o wledydd y trydydd byd gyda'i gilydd.

Fel y gwyddom o brofiad yng Nghymru, mae sefydliadau militaraidd yn farus iawn wrth hawlio tir, hefyd. Ar ddechrau'r 1980au roeddent yn defnyddio rhwng 0.5 ac 1% o dir y blaned (rhwng 750,000 a 1.5 miliwn o gilomedrau sgwâr), tiroedd sy'n aml yn gynefin i rywogaethau bywyd gwyllt a diwylliannau dynol dan fygythiad. A dyw'r ffigyrau hyn ddim yn cynnwys tir dan reolaeth corfforaethau arfau preifat.

Mae lluoedd arfog y byd yn defnyddio hyd yn oed mwy o'r awyr uwchben nag o'r tir dan ein traed, gan gyfrannu'n sylweddol at allyriadau nwyon tŷ gwydr.

Mae pobl ac anifeiliaid canolbarth Cymru wedi dioddef effaith hedfan isel awyrennau militaraidd o sawl gwlad ers degawdau. Meddai Simon Jenkins amdano yn ei erthygl ysgytwol ddiweddar *('My once-in-a-generation cut? The armed forces. All of them', Guardian 9 Mehefin 2010):* 'Pob penwythnos, caiff llonyddwch cefn gwlad Cymru ei rhwygo gan *jets* gwallgof yn sgrechian trwy gymoedd y mynyddoedd wrth chwarae *Lord of the Rings*. Gyda bomiau modern, does dim angen i unrhyw awyren hedfan mor isel, a dywedir bod y *jets* yn llosgi mwy o danwydd mewn hanner awr nag ysgol mewn blwyddyn.'

A nawr, ar ben hynny, mae Llywodraeth Cymru Un wedi caniatau defnyddio coridor awyr o Aberporth i'r Bannau i brofi'r awyrennau di-beilot (y *'drones'*) sy'n lladd cymaint yn Afghanistan!

Bu David Milliband AS ym Merthyr Tudful yn ddiweddar, yn erfyn ar Lywodraeth newydd y ConDems i ddod â'r Academi Militaraidd i Fro Morgannwg. Golygai ddim iddo mai traddodi Darlith Flynyddol Keir Hardie ydoedd, sef yr heddychwr mawr o sosialydd. *'Jobs for Wales,'* oedd ei abwyd i ni.

Wrth i Gaerdydd ennill sylw am gynnal Dydd y Lluoedd Arfog llwyddiannus, cawsom ddisgrifiad brawychus gan David Cameron o'i uchelgais ef am y lluoedd militaraidd — *"Dw i eisiau eich rhoi chi ar flaen ac ynghanol ein bywyd cenedlaethol eto." (Guardian, 11 Mehefin, 2010).*

## RHYBUDD EISENHOWER

Cafwyd rhybudd doeth yn erbyn geiriau dychrynllyd Cameron a'i debyg o gyfeiriad annisgwyl a hynny flynyddoedd yn ôl, sef gan Dwight D. Eisenhower, cyn-Uwch Gadfridog lluoedd y Cynghreiriaid yn yr Ail Ryfel Byd, a Llywydd yr Unol Daleithiau. Gwelai ef y bygythiad o bell: "Yn y cynghorau llywodraethol, rhaid i ni warchod rhag i'r drefn ddiwydiannol filitaraidd fagu gormod o ddylanwad … Mae diarfogi, gydag anrhydedd a hyder, yn parhau'n anghenraid. Gyda'n gilydd, rhaid dysgu sut i asio gwahaniaethau, nid trwy arfau, ond gyda deallusrwydd ac amcanion gwar" *(araith, 1961).*

A dyna'r weledigaeth ddylai ein sbarduno i ymgyrchu dros Academi Heddwch i Gymru, ac yn erbyn Academi Filitaraidd. Gweithiwn o blaid y cyd-fyw heddychlon sy'n hanfodol nid yn unig rhwng pobloedd, ond rhyngom, hefyd, a holl systemau naturiol y Ddaear yr ydym yn dibynnu arni i'n cynnal.

Yn wahanol i'r grymoedd militaraidd, fe ddywedwn ni, "Os ydym am heddwch, paratown am – heddwch!"

Ychwanegwn – os ydym am Ddaear yn gartref i'r dyfodol, parchwn hi. □

**ARIAN – GWAS NEU FEISTR?**

**Pwrpas arian oedd, a dylai fod, i wasanaethu'r gymuned ddynol a chymuned y Ddaear. Ond ymddengys bod y pwrpas gwreiddiol wedi'i wyrdroi. Yn lle bod arian yn gwasanaethu pobl a phlaned, nawr mae pobl a phlaned yn gwasanaethu arian.**

***Satish Kumar, Resurgence 248***


## WYNEBU'R CWESTIWN LLOSG — BETH HOFFECH CHI GAEL FEL YNNI LLEOL?


GLO BRWNT?


ATOMFA YMBELYDROL?


NEU DYRBINI GLAN Â'U HELW AT EICH CYMUNED?

# Dewis ynni glân sy'n cynnal cymunedau


Erthygl gan MEURIG PARRI Aberpennar

**RYDYM yn defnyddio pŵer ym mhob agwedd o'n bywydau — hyd yn oed wrth gerdded mae angen sgidiau, ac mae cynhyrchu sgidiau yn defnyddio pŵer.**

Ond rydym yn tueddu cymryd cyflenwad ein pŵer yn ganiataol. Troi'r swîts, a'r teledu'n dod ymlaen. Troi'r bwlyn a dyma nwy yn syth i ferwi te.

Dim ond oherwydd bod pris tanwydd ar gyfer y car wedi cynyddu'n aruthrol dros y blynyddoedd diweddar rydym yn dechrau sylweddoli bod rhaid talu pris go iawn am bŵer.

Ond mae pris i'w dalu mewn pethau llawer mwy gwerthfawr nag arian. Trwy ddefnyddio tanwydd ffosil, megis glo, olew a nwy, rydym yn peryglu dyfodol y byd fel lle i gynnal bywyd i nifer fawr o rywogaethau, yn cynnwys — o bosibl — ninnau.

Ar yr arwyneb mae ynni niwclear yn lân, ac yn gynaliadwy. Ond ar ei ôl erys deunydd hynod o wenwynig a fydd yn parhau i fod yn beryglus am 25,000 o flynyddoedd. Does neb yn gwybod sut i gadw'r deunydd yma'n saff am 100 mlynedd, heb feddwl am gyfnod sydd yn agos at dragwyddoldeb.

Felly beth am ynni adnewyddol, megis pŵer y gwynt? Yn ôl gohebydd i rifyn diweddar fy mhapur bro lleol, mae'r tyrbinau'n hyll, i'w cadw allan o Gwm Cynon doed a ddelo. Ydyn nhw'n hyll? Barn oddrychol yw hon, gyda nifer yn eu hystyried yn reit hardd, gan droi'n hamddenol ac urddasol yn y gwynt.

Fel cymuned, rhaid i ni gymryd dewisiadau anodd. Mae angen pŵer. Rhaid cynhyrchu'r pŵer rhywsut. Yn ddelfrydol efallai, byddai ffortiwn yn cael ei gwario ar harneisi egni tonnau'r môr. Ond rydym yn wynebu toriadau mewn gwariant cyhoeddus.

Yn realistig, rhaid dewis opsiynau rhatach. A'r opsiwn ynni'r gwynt yw un o'r rhai gorau ar hyn o bryd. Wrth gwrs, ni fydd gwynt yn cynhyrchu'r holl ynni sydd ei angen. Ond mae'r ffermydd gwynt sy'n weithredol eisoes wedi profi y gallant gynhyrchu canran uchel o'r galw. Hefyd, maen nhw wedi profi nad ydynt yn swnllyd, yn lladd adar, yn denu mellt, nac unrhyw un arall o'r straeon camarweiniol a ledaenir gan wrthwynebwyr.

Y broblem fwyaf gyda ffermydd gwynt yng Nghymru yw'r cwestiwn perchnogaeth. Yma maen nhw bron i gyd o dan berchnogaeth cwmnïau mawr, gyda dim ond ychydig o'r elw'n mynd i'r cymunedau lleol. Ac mae llawer ohonynt yn enfawr. Ond does dim rhaid bod fel hyn.

Yn Ynys Wastateir yn yr Orkneys mae'r bobl leol wedi ffurfio cwmni ac wedi sefydlu fferm gwynt, gydag un tyrbin yn unig. Ond mae'r tyrbin yn cynhyrchu andros o lot o drydan, a disgwylir elw blynyddol o £200,000. Bydd hwn i gyd yn mynd yn ôl i'r gymuned.

Yn ystod y broses ganiatâd cynllunio ni dderbyniwyd yr un gwrthwynebiad, yn rhannol oherwydd daw'r elw i'r gymuned, ond hefyd oherwydd mor fach yw'r prosiect. Disgwylir cyn bo hir bydd nifer o gymunedau eraill yn yr Orkneys wedi lansio prosiectau tebyg.

'Dw i'n gobeithio gweld yr un peth yng Nghwm Cynon. Byddai'n braf gweld tyrbin yn troi ar y mynydd uwchben Darren Las. Byddai'n brafiach byth gwybod nid yn unig rydym yn gwneud cyfraniad bach tuag at ddyfodol cynaliadwy i'r blaned, ond hefyd yn cyfrannu arian sydd wir eu hangen i economi Aberpennar. ◻

*Meurig Parri yw Ysgrifennydd Cymdeithas Edward Llwyd. Mae'n gweithio ym maes digartrefedd.*

*[GOL: Gweler Y Papur Gwyrdd rhif 17, Ebrill / Mai 2010 am brosiectau tyrbinau gwynt cymunedol yn Sir Benfro a Sir Gaerfyrddin.]*

## DIM HELA MORFILOD!

PROFODD y ddeiseb arlein fwyaf erioed yn ffactor allweddol wrth atal ymdrechion i ail gyfreithloni hela morfilod. Trefnwyd y ddeiseb gan y mudiad amgylcheddol **Avaaz** ac fe ddenodd 1.2miliwn o enwau o bobman yn y byd.

Roedd y Comisiwn Rhyngwladol Morfilod dan bwysau i ganiatau ail ddechrau hela, ond pan welwyd nerth y farn gyhoeddus, gwrthododd ildio. Bwriad Siapan, serch hynny, yw parhau i hela — am resymau 'gwyddonol' honedig. Dengys ymchwil bod morfilod yn greaduriaid deallus, cymdeithasol a theimladwy.

**"Derbyniwch y byd mae Duw wedi'i roi. Cerwch am dro. Gwlypwch. Palwch y pridd."**

**Archesgob Rowan Williams,** o'r rhagair i ***Sharing God's Planet*** (Church House Publishing, 2005)

## DIOGELI'R CLEDDAU

MAE darpar Lywydd Plaid Cymru, Jill Evans ASE, yn cydweithredu â Chyfeillion y Ddaear i drefnu ymchwiliad Ewropeaidd i'r caniatad a roddwyd gan Lywodraeth y DG i godi Pwerdy Nwy Penfro. Ofnir y bydd system oeri'r pwerdy yn niweidio bywyd morol y Cleddau ac nad oedd San Steffan wedi rhoi ystyriaeth i hynny.

## ACHUB COEDWIGOEDD

MAE cynllun arloesol yn Bolivia i ddechrau dadwneud y ddifrod a wnaed i fforestydd yr Amazon yn profi'n hynod lwyddiannus.

Ers Rhagfyr 2009, mae menter gydweithredol Prosiect Cochabamba wedi codi dros £1million o fuddsoddiadau i helpu ffermwyr bychain ail-blannu coed.

## Codwch o'ch setiau teledu! - medd Lloyd Jones, awdur nofel Y Dŵr ...

# ... Rhaid wynebu Tryweryn yr hinsawdd

**DWI wrth fy modd gyda chartwnau sy'n dangos amlinell corff mewn sialc ble cafodd rhywun ei ladd.**

Mae llyfrau dipyn bach fel y llinellau hynny – maen nhw'n dangos siâp meddwl yr awdur pan oedd e'n sgrifennu'r stori. Mae'r darllenydd yn gweld ffordd o feddwl yr awdur a'r hyn sy'n ei ddiddori.

Felly, pan sgrifennais i **Y Dŵr** yr hyn oedd yn mynd â fy mryd i oedd cynhesu byd-eang a ble allai hynny ein harwain.

Dechreuais i drafod y mater gyda phobl ar fy nhaith gerdded ddyddiol ar hyd lan y môr yn Llanfairfechan, a ffeindiais i bod llawer o bobl yn rhannu'r un gofidion.

Dechreuais i sylwi ar fwy a mwy o erthyglau oedd yn dyfynnu gwyddonwyr yn darogan dyfodol dychrynllyd os na fyddwn ni'n gweithredu'n fuan.

Mae'n bosib bod yna drychinebau bychain yn y gorffennol: mae yna ddamcaniaethau dadleuol bod trigolion Ynys y Pasg a Maiaid De America wedi cael eu diddymu ar ôl cam-drin eu hamgylchedd.

Wrth gwrs, dydy hanes fyth yr hyn mae rhywun yn ei ddisgwyl, ond gyda phoblogaeth y byd o bron i 6.7 biliwn, a rhagolygon y bydd y nifer hynny yn cyrraedd naw biliwn erbyn 2040, does angen fawr o ddychymyg i ragweld beth allai ddigwydd petai'r gadwyn fwyd yn torri yn sydyn.

Mae'n syml a dweud y gwir.

Mae mwy o bobl yn golygu llai o natur. Mae mwy o goncrit yn golygu llai o gaeau a llai o anifeiliaid.



Erthygl Gan LLOYD JONES

Bydd mwy o ddynion yn golygu llai o adnoddau a mwy o lygredd. D'yn ni ddim yn llesol i'r amgylchedd. Mae ganddom ni'r fath agwedd nawddoglyd mai'r gred gyffredinol yw bod y byd a'i adnoddau yno i ni wneud beth bynnag ry'n ni eisie â nhw. Does dim angen i mi sôn am ganlyniadau hynny – jest drychwch ar ein hannibendod ni!

Mae rhyfel a newyn o'n cwmpas ym mhob man. Mae biliwn o bobl, bron iawn, yn llwgu i farwolaeth.

Mae Banc y Byd yn amcangyfrif erbyn 2025 y bydd 48 o wledydd yn diodde achos diffyg dŵr ac y bydd hynny'n effeithio ar tua 1.5 biliwn o bobl.

Bydd asiantaethau cymorth yn methu ymdopi gyda thrychinebau sy'n berthnasol i'r hinsawdd erbyn 2015 onibai bod y cymorth sydd ar gael yn gwella, yn ôl Oxfam. Fe allai hyd at 375 miliwn o bobl gael eu heffeithio bob blwyddyn wrth i gynhesu byd-eang arwain at fwy o sychderau a llifogydd ac wrth i ddioddefwyr dyrru at slymiau yn y dinasoedd.

Beth bynnag, fe ddarllenais i lyfr hudolus o'r enw **Baotown**, gan yr awdur Tsieineaidd, Wang Anyi. Yn nhrosiad Penguin mae'n disgrifio pentre gwledig, mytholegol a real, ble mae'r bobl i gyd yn byw mewn tlodi anhygoel ac yn rhannu'r un hynafiad cyffredin a'r un cyfenw.

Mae Wang yn disgrifio'r berthynas glòs sy'n datblygu rhwng hen ddat-cu a bachgen bach o'r enw Dregs wrth i'w cymuned syml ymdopi gyda bygythiad parhaus llifogydd o gronfa enfawr.

Yn nhraddodiad y parasit-sgwennwr gwelais bod gan **Baotown** elfennau fyddai'n benthyg eu hunain i leoliad Cymreig.

Wedi ein hamgylchynu o dair ochr gan y môr, mae gan Gymru berthynas fytholegol gyda dŵr erioed, ers i'r brenin Gwyddelig Matholwch hwylio i'r golwg gyda'i dair llong ar ddeg hardd yn y Mabinogi; ac, wrth gwrs, fe gofir am Dryweryn, y dyffryn a'i gollwyd i gronfa yn y 60au ac sydd yn dotemaidd yn yr ymwybyddiaeth Gymreig, cloch fach barhaus yn corddi'n gynhyrfus yng nghlust hanes.

Felly, yn fy llyfr i rwy'n dychmygu beth allai cynhesu byd-eang wneud i Gymru petai'n cyrraedd y darogan gwaetha, a'i bupuro ag elfennau o **Baotown** a llinynnau o fytholeg Cymru.

Nid fy mwriad wrth ysgrifennu oedd creu ofn. Mae yna ddigon o hynny yn y byd fel ag y mae hi. Yr oll rwy'n ei ddweud yw hyn: edrychwch, ry'n ni'n niweidio'r byd. Mae angen i ni atal ein hunain neu fyddwn ni'n strywo pethe i rywogaethau eraill.

Codwch eich pen oddi ar y sgrin. Edrychwch ar y byd go iawn, dim y byd rhithwir tu mewn eich teledu a'ch cyfrifiadur chi. Mae angen i ni wneud rhywbeth a hynny ar fyrder.

Yn bennaf, mae angen brîd newydd o wleidydd arnom gyda'r gallu a'r weledigaeth i edrych yn bellgyrhaeddol.

Fyddwn ni'n mynnu eu cael mewn pryd? Fydden i ddim yn hoffi ateb hynny. ☐

**Enillodd Lloyd Jones y McKitterick Prize am ei nofel Saesneg *Mr Vogel* yn 2005 a gwobr y Wales Book of the Year am *Mr Cassini* yn 2007. Cyhoeddir *Y Dŵr* gan Y Lolfa, pris £8.95.**

# Diwedd 'Climategate' ...

**YSGUBWYD ymaith pob rhithyn o sail i honiadau 'Climategate' wrth i'r trydydd ymchwiliad annibynnol i'r helynt ddatgan nad oedd gwyddonwyr uned ymchwil hinsawdd Prifysgol East Anglia wedi gwyrdroi data i ffugio bodolaeth newid hinsawdd.**

Mae'r adroddiad mwyaf diweddar, wedi'i arwain gan Syr Muir Russell, yn cadarnhau na welwyd unrhyw awgrym o dwyll gan y gwyddonwyr yn y negeseuon e-bost gafodd eu dwyn o'r brifysgol a'u cyhoeddi ar-lein.

Bu'r negeseuon yn sail i ymosodiad enfawr gan Wadwyr Cynhesu Byd-eang ar wyddoniaeth newid hinsawdd yn yr wythnosau'n arwain at Gynhadledd y Cenhedloedd Unedig yn Copenhagen fis Rhagfyr diwethaf.

O ganlyniad i'r penawdau a roddwyd i'r honiadau gan y cyfryngau, dinistriwyd pob gobaith o gytundeb rhyngwladol ar sut i ddelio â'r bygythiad sy'n wynebu dynoliaeth a ffurfiau bywyd eraill y Ddaear.

Cadarnhaodd yr ymchwiliad bod y dystiolaeth wyddonol sy'n datgan bod y byd yn cynhesu'n gyflym oherwydd gweithgarwch dynol yn gywir — a bod hyn yn golygu bygythiad difrifol i ddynoliaeth. Felly, mae'n aros yn sail gadarn i ymdrechion llywodraethau i leihau allyriadau carbon ac ymgyrchoedd amgylcheddwyr.

Yr unig feirniadaeth o wyddonwyr East Anglia oedd nad oeddynt wedi bod yn ddigon parod i ryddhau gwybodaeth am eu hymchwil i bobl oedd yn defnyddio hawliau Rhyddid Gwybodaeth.

Yn ychwanegol at hynny, awgrymwyd bod rhaid i sefydliadau gwyddonol edrych eto ar eu prosesau o asesu ymchwil a bod yn fwy agored er mwyn adennill ffydd y cyhoedd yn eu gwaith.

► **Cyhoeddodd Cyfeillion y Ddaear Cymru daflen yn delio'n benodol gyda 10 o ddadleuon a ddefnyddir wrth geisio tanseilio gwyddoniaeth newid hinsawdd – *Newid Hinsawdd: Ateb y Mythau* (gweler tud 11).**

# Daear-iadur Y Papur Gwyrdd

**Beth sy' 'mlaen yng Nghymru i warchod y byd?**



## YMWELD Â GERDDI

MAE grŵp Trawsnewid Abertawe yn gwahodd y cyhoedd i ymweld â gerddi rhai o'r aelodau ar ddydd Sul, 5 Medi, rhwng 2 a 5 o'r gloch.

Croesewir ymwelwyr i drafod y llysiau a'r ffrwythau gyda'r tyfwyr a'r athrawiaeth o dyfu naturiol, di-gemegau, sydd ganddynt.

Gwelir rhai gerddi sy'n enghreifftiau o ddulliau organig syml a rhai eraill o dechnegau Permaddiwylliant. Mae'r gerddi yng Nghila, Sgeti, Tycoch, yr Hafod a chanol y ddinas.

**► Ceir mwy o wybodaeth gan Jill Ireland, ffôn 01792 206223.**

## HYBU TYFU

MAE Partneriaeth Amgylcheddol Gwynedd a Gwynedd Gynaladwy wedi lansio Cystadleuaeth Gardd Fwyd er mwyn annog pobl i dyfu bwyd eu hunain.

Mae'r gystadleuaeth yn agored i erddi sy'n cynhyrchu ffrwythau, llysiau neu berlysiau yng Ngwynedd pa bynnag raddfa — o botiau ar silff ffenestr i ddarn o dir. Eleni mae dau gategori yn y gystadleuaeth — Gerddi Preifat ac Ysgolion.

Bydd yr enillwyr yn derbyn £50 mewn tocynnau i'w gwario yn eu canolfan arddio leol. Gall garddwyr o bob oedran a phrofiad gymryd rhan ac mae galw arbennig ar i rai sy'n newydd i arddio camu ymlaen. Mae'r Bartneriaeth eisiau clywed am yr amrywiaeth o gynnyrch rydych yn ei dyfu, a dysgu am eich profiadau ac unrhyw broblemau.

**► Am ffurflen gais, cysylltwch â Phartneriaeth Amgylcheddol Gwynedd trwy e-bostio PartneriaethAmgylched-dol@gwynedd.gov.uk neu ffonio 01286 679652.**

***** Y dyddiad cau ydy dydd Gwener, 24 Medi, 2010.**

## Gwersyll Climate Camp Cymru




**BYDD mudiad Climate Camp Cymru'n cynnal Gwersyll Gweithredu am benwythnos rhywle yn ne ddwyrain Cymru rhwng dydd Gwener, Awst 13, a dydd Llun, Awst 17.**

**Pwnc y gwersyll eleni – fel y llynedd yn Ffos y fran, Merthyr Tudful — fydd y bygythiad i'r Ddaear trwy losgi glo fel tanwydd. Bydd yno weithdai amrywiol ar bynciau fel gwyddoniaeth newid hinsawdd a hyfforddiant gweithredu, sesiynnau trafod, sinema a chawodydd haul, toiledau compost, ynni gwynt a bwydydd llysieuol.**

**"Mae glo yn un o'r tanwydd ffosil mwyaf brwnt o ran garbon," meddai'r llefarydd, Cerys Jones. "Byddwn yn canolbwyntio ar safleoedd glo brig oherwydd eu bod yn rhacso'r tir, yn dinistrio'r blaned a bywydau pobl leol. Mae 'Glo Glân yn Jôc Fudr!'**

**"Ar ôl methiant Uwchgynhadledd Hinsawdd Copenhagen, mae'n amlwg na allwn ddibynnu ar lywodraethau sy'n cael eu rheoli gan y corfforaethau. Rhaid i ni weithredu ein hunain," meddai Ms Jones.**

**Y bwriad yw i wersyllwyr deithio i leoliad yng Nghaerdydd o ble cant eu danfon i'r gwersyll ei hun. Dylai pawb sydd eisiau gwybod mwy ddanfon e-bost at info@climatecampcymru.org neu ffonio 07040 909 147. Croeso i bawb ymweld â gwefan Climate Camp Cymru: www.climatecampcymru.org.**

## GŴYL ARBERTH

BYDD hwyl a bwyd yn dod ynghyd eto ar gyfer Gŵyl Fwyd Arberth yn Sir Benfro ar ddydd Sadwrn, 25 Medi (10yb - 6yh) a dydd Sul, 26 Medi (10yb - 4yp). Bydd yno stondinau o fwydydd lleol, crefftau amrywiol, arddangosfeydd coginio gan Dudley Newberry, Angela Gray a Wayne Delve, cerddoriaeth fyw trwy'r dydd, chwaraeon i blant, bwyd a diod … a mwy.

## GŴYL LLANGOLLEN

BYDD 20fed Gŵyl Fwyd a Diod Llangollen yn cael ei chynnal ar ddydd Sadwrn, 16, a dydd Sul, 17 Hydref, ym Mhafiliwn yr Eisteddfod Ryngwladol , rhwng 10yb a 5yh.

Fel un o'r achlysuron bwyd gorau yng Nghymru, bydd yno: 100+ o stondinau, cegin fawr gydag amrywiaeth o arddangosiadau, sesiwn drafod a chyngor coginio, clinig tyfu ffrwythau a llysiau, Gŵyl Fwyd i Blant — a Gŵyl Gwrw. Penwythnos o fwyd, diodydd ac adloniant ardderchog ynghanol prydferthwch Llangollen.

## FFAIR WERDD

Ffair Werdd
Green Fayre

MAE Ffair Werdd Abertawe wedi tyfu eto eleni. Am y tro cyntaf, bydd y Ffair yn cael ei chynnal dros ddau ddiwrnod, sef ar Sadwrn, 27 Tachwedd, a Sul, 28 Tachwedd, rhwng 10yb a 4yp — amseru gwych ar gyfer anrhegion Nadolig.

Fe'i cynhelir yn Amgueddfa Genedlaethol y Glannau, a disgwylir dros 3,000 o ymwelwyr. Bydd mwy na 50 o stondinau yno yn adlewyrchu gweithgarwch amgylcheddol diddorol ac amrywiol iawn. A bydd lluniaeth iachus ar gael, wrth gwrs.

**► Mwy o wybodaeth gan Hannah, Canolfan yr Amgylchedd, 01792 480200**


## HYSBYSEBWCH YN Y PAPUR GWYRDD

**Am *Garden Costau Hysbysebion* Y Papur Gwyrdd, ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@ btinternet.com neu ffoniwch 01792 798162 . Archebion erbyn 31 Awst ar gyfer rhifyn Hydref / Tachwedd**


**CYFRANIADAU GOLYGYDDOL**

**► Croesawn erthyglau, lluniau, ac eitemau newyddion i'r** Papur Gwyrdd **— erbyn 23 Awst os i'w hystyried ar gyfer rhifyn Hydref / Tachwedd. Ebostiwch at: ypapurgwyrdd1@btinternet.com. Neu ffoniwch 01792 798162. Llythyrau at 217 Vicarage Road, Treforys, Abertawe SA6 6DX.**

24 Hydref
DYDD Y CENHEDLOEDD UNEDIG

24 - 30 Hydref
WYTHNOS DI-ARFOGI

# Y byd a'r aelwyd

## Golwg 'cartrefol' ar yr ymgyrch 'global'

ERS ymhell iawn cyn sylweddoli gwir bwysigrwydd y lle, rydyn ni'n dau wedi bod yn ffans mawr o Ganolfan y Dechnoleg Amgen ger Machynlleth. Felly, roedd cael gwahoddiad yno i agoriad swyddogol Sefydliad Cymru er Addysg Gynaliadwy yn achos llawenydd.

Ond, ar waelod y garden wahoddiad (ddwyieithog), roedd brawddeg achosodd ansicrwydd, a dweud y lleiaf, sef un yn ein gwahodd i *ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus* i gyrraedd yno. Abertawe – Machynlleth? Ar y trên? Mewn dydd? Tynnu coes ...?

Ar fore braf y 10fed o Fehefin, sleifiodd trên Arriva o orsaf Abertawe am 07.45, i'r eiliad. I'r eiliad, cyrhaeddodd i'r Amwythig am 10.51. *(Roedd tipyn o adloniant yno wrth i Radio Cymru geisio fy mherswadio bod defnyddio ceir yn rhan o DNA'r hil ddynol.)*

Gyda choffi braf yn gwmpeini i frechdanau iachus, ymlaen â ni ar draws Cymru gan gyrraedd Machynlleth, i'r eiliad, am 12.46. Ac erbyn 1 o'r gloch, roedd bws gwennol wedi'n cludo i hen chwarel Llwyngwern i ddechrau rhyfeddu gyda'r 300 o westeion eraill at hyfrydwch pensaernïol Sefydliad 'WISE'. Dyma adeilad sy'n dangos bod dulliau di-garbon, cynaliadwy, yn gallu cystadlu ag unrhyw dechnegau planed-ddifrodol. Mae'n suddo'n naturiol i'r fro. Mae'n drawiadol o brydferth. Mae'n gynnes o gartrefol. ***(Lluniau ar y dde)***

Ac mae'n Gymraeg. Wedi'r ffrwgwd ieithyddol bach yn gynt eleni, hyfryd adrodd gyda'r Dr Iolo ap Gwynn, cadeirydd Ymddiriedolwyr y Ganolfan, wrth y llyw, a'r Arglwydd Dafydd Elis-Thomas a'n Gweinidog Amgylcheddol Jane Davidson yn siaradwyr, roedd hen iaith Bro Dyfi'n atsain yn hapus rhwng muriau'r Dechnoleg Amgen. A phleser oedd deall bod cymaint o'r staff mor falch i'w harddel. Dyma bencadlys byd-eang i'n dysgu sut i gynnal ein Daear, ac wedi tua 30 mlynedd yn ein plith, mae gwyrddni naturiol Cymreictod yn plethu â hi.

Wrth i ni adael ar y trên, i'r eiliad, am 16.07 roedd hufen ar deisen hyfryd ein dydd wrth i ni eistedd yn ôl yn ymlaciol i fwynhau cwmnïaeth Cynog Dafis ar y daith — un arall o blith Ymddiriedolwyr y Ganolfan. I'r tri ohonom, roedd cyffro a hud yr achlysur wedi profi'n ysbrydoliaeth wrth i ni edrych ymlaen at ddyfodol gyda Chymreictod a Daear wedi asio'n un mudiad.

A dyna'r trên yn sleifio yn ôl i orsaf Abertawe am 20.50, i'r eiliad. A'r car yn methu â deall ble roedden ni wedi bod!

***Hywel a Charlotte***

*O.N. Ydyn, diolch, mae ein llysiau organig yn ffynnu, a'r mefus a'r salad amrywiol eisoes yn flasus. A'r malwod? Dan reolaeth — ond yn ymladd nôl gyda'r glaw!*

## Taflen sy'n ateb y rhai fu'n ceisio gwadu ffeithiau Cynhesu Byd-eang



Yn lansio taflen newydd Cyfeillion y Ddaear, **Newid Hinsawddd: Ateb y Mythau'**: (chwith i dde) Gordon James, Cyfeillion y Ddaear, Jane Davidson AS, ein Gweinidog Amglychedd, a'r gwyddonydd blaenllaw, Syr John Houghton. Gellir lawrlwytho'r daflen o: www.cyddcymru.co.uk

## Agoriad y Sefydliad Addysg Gynaliadwy





Newid byd ar lethrau hyfryd Bro Dyfi. ***Lluniau Uchod Tim Soar***





**Dr Iolo ap Gwynn (chwith) — Cadeirydd Ymddiriedolwyr Canolfan y Dechnoleg Amgen, Machynlleth — yn llywio'r Agoriad Swyddogol**

**Gyda rhyw 300 yn adeilad newydd y Sefydliad, roedd hi'n achlysur cofiadwy ...**





# Mynnwch gwsg ym mynwes natur






## ... gan gynnwys i'r babi

# Matresi Organig gan Abaca

Abaca, Uned 1,
Parc Busnes Tŷ Croes,
Rhydaman,
Sir Gaerfyrddin SA18 3RZ

**01269 598491**
**info@abacaorganic.co.uk**

